# CYNLLUNIO AT ARGYFWNG A CHYNLLUNIO CYDNERTHEDD

(Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar Ganllawiau Cydnerthedd mewn Argyfwng Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022)

Pwrpas y cynllun hwn yw sicrhau bod gan Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys ymateb effeithiol mewn lle ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r cynllun hwn yn cydfodoli â Chynllun Parhad Dysgu'r ysgol.

Drwy'r cynllun hwn, ein nod yw sicrhau bod cyn lleied â phosibl o darfu er mwyn osgoi effeithiau tymor hir ar blant a phobl ifanc.

Mae'n rhaid i Awdurdod Lleol Ceredigion hysbysu Llywodraeth Cymru os oes rhaid i ysgol gau dros dro naill ai'n llawn neu'n rhannol ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb. Cyn penderfynu a oes angen cau'r ysgol dros dro dylai'r Pennaeth ymgynghori â'r Prif Swyddog Addysg. Mae manylion cyswllt swyddogion yr Awdurdod Lleol wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

**Diogelu**

Mae canllawiau diogelu statudol arferol yn parhau i fod yn berthnasol yn ystod unrhyw gyfnod o gau ysgol dros dro. Os na all staff gysylltu â disgyblion yna dylid dilyn y broses a amlinellir yn y ddogfen ganlynol (dolen i'r ddogfen Diogelu.)

**Presenoldeb:**

Mae cofnodi presenoldeb yn parhau i fod yn ddyletswydd statudol. Dylid defnyddio codau presenoldeb yn unol â'r canllawiau https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/canllawiau-ar-godau-presenoldeb-yn-yr-ysgol.pdf

Os bydd y pŵer yn diffodd, cedwir copi papur o'r gofrestr bresenoldeb yn ddiogel yn swyddfa'r ysgol

**Lles:**

Bydd cefnogi lles disgyblion a staff yn hollbwysig mewn unrhyw gyfnod o darfu. Cedwir cysylltiad cyson â disgyblion a staff (gweler y Canllawiau Parhad Dysgu). Bydd pob teulu a'r holl staff yn cael gwybod am fanylion cyswllt Llinell Gymorth Iechyd Meddwl Cymru (0800 132 737)

**Blaenoriaethu lleoedd**:

Mae grwpiau allweddol o ddysgwyr wedi'u nodi os bydd nifer cyfyngedig o leoedd ar gael oherwydd bod yr ysgol wedi cau'n rhannol dros dro ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb.

- Bydd disgyblion mewn grwpiau arholiad yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb.
- Disgyblion sy'n agored i niwed (rhestr ar gyfer pob grŵp blwyddyn ar gael gyda'r Pennaeth
- Plant gweithwyr hanfodol. Bydd yr ysgol yn asesu angen fesul achos, gan roi sylw dyledus i restr Llywodraeth Cymru (Atodiad B)

**Deiliaid allweddi:**

Mae manylion deiliaid allweddi'r ysgolion fel a ganlyn:

**Ysgol Pontrhydfendigaid**

| Enw | Rhif cyswllt | Rhif cyswllt |
|---|---|---|
| Joyce George | 07813 274539 | 01974 261181 |
| Helen Davies | 07794 488591 | 01974 831415 |
| Stella Dart | 01974 831744 | 07791044527 |

**Ysgol Mynach**

| Enw | Rhif cyswllt | Rhif cyswllt |
|---|---|---|
| Joyce George | 07813 274539 | 01974 261181 |
| Bethan James | 01970 890283 | 07866979143 |
| | | |

**Ysgol Syr John Rhys**

| Enw | Rhif cyswllt | Rhif cyswllt |
|---|---|---|
| Joyce George | 07813 274539 | 01974 261181 |
| Caryl Jones | 01970 890480 | 07779628637 |
| Susan Pugh | 01970 890622 | |

**Cyfleustodau:**

Os nad oes gan yr ysgol gyflenwad dŵr dylent gysylltu â Dŵr Cymru i weld a yw'r broblem yn ymwneud â'r ysgol yn benodol neu'n broblem gymunedol, a phryd mae dŵr yn debygol o ddychwelyd.

Os yw dŵr yn annhebygol o ddychwelyd o fewn 1 awr yna dylai'r ysgol gysylltu ag Iechyd a Diogelwch am gyngor pellach (iechydadiogelwch@ceredigion.gov.uk)

Os nad oes gan yr ysgol ddŵr poeth cysylltwch ag Iechyd a Diogelwch (iechydadiogelwch@ceredigion.gov.uk) am gyngor pellach.

Mae'r tap cau / stopfalf dŵr wedi'i (l)leoli:

**Ysgol Mynach – Yn y gegin**

**Ysgol Pontrhydfendigaid -** ar iard gefn yr ysgol

**Ysgol Syr John Rhys – Yn nhoiledau'r merched**

Mae pŵer y prif gyflenwad trydan wedi'i leoli:

**Ysgol Mynach – Cyntedd gefn y gegin**

**Ysgol Pontrhydfendigaid -** yn nosbarth Penybannau

**Ysgol Syr John Rhys – yn Stordy'r neuadd**

Os bydd tân neu amgylchiadau argyfyngus eraill, bydd angen rhoi gwybod i'r gwasanaethau brys am leoliad unrhyw asbestos neu unrhyw sylwedd fflamadwy a pheryglus arall (gweler Atodiad C).

Y math o danwydd a system wresogi a ddefnyddir yn yr Ysgolion yw:

Ysgol Myanch - olew

Ysgol Pontrhydfendigaid

nwy LPG ac mae stopfalfiau (h.y. nwy) wedi'u lleoli ar wal allanol yr ystafell boiler.

Ysgol Syr John Rhys - olew

Nid oes gan Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys system chwistrellu wedi'i lleoli yn yr ysgol.

**Swyddogion Cymorth Cyntaf Cymwys:**

Y staff sy'n swyddogion cymorth cyntaf cymwys yn yr ysgol yw:

| |
|---|
| Joyce George – Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys |
| Carys Davies - Pontrhydfendigaid |
| Bethan James – Ysgol Mynach |
| Caryl Jones – Ysgol Syr John Rhys |

Yr adran damweiniau ac achosion brys agosaf i Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys yw Ysbyty Gyffredinol Bronglais, Aberystwyth.

Mae'r diffibriliwr agosaf wedi'i leoli tu allan i Neuadd Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid.

Mae'r diffibriliwr agosaf wedi'i leoli tu allan i Ysgol Syr John Rhys , Ponterwyd.

Mae'r diffibriliwr agosaf wedi'i leoli tu allan i Neuadd Gymunedol Mynach, Pontarfynach.

**Lleoliad Gadael mewn Argyfwng:**

Os oes angen gadael yr ysgol ar frys, gellir chwilio am loches frys yn:

Gwesty'r Hafod ( Nicole Gwynn, 01970 890232

Neuadd Pantyfedwen (Clare Hughes, 01974 831433)

Garej Ponterwyd (01970 890649)

**Cyfathrebu:**

Bydd Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys yn hysbysu'r Prif Swyddog Addysg a Swyddfa'r Wasg o unrhyw newidiadau allweddol sydd eu hangen mewn ymateb i sefyllfa arbennig.

Bydd yr Ysgolion yn cyfleu unrhyw gynlluniau argyfwng yn y modd mwyaf amserol ac effeithiol â phosibl o dan yr amgylchiadau.

Bydd staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r diwrnod ysgol arferol trwy eu he-bost staff.

Hysbysir rhieni o unrhyw newidiadau i'r diwrnod ysgol arferol trwy Parentpay, ebost a'r cyfryngau cymdeithasol. Byddant yn cael gwybod am gyfeiriad e-bost a / neu rif ffôn y gallant gysylltu ag ef i gael eglurhad pellach o ymholiadau.

Yn Ysgol Mynach hyn fydd prif@mynach.ceredigion.sch.uk

Yn Ysgol Pontrhydfendigaid hyn fydd prif@pontrhydfendigaid.ceredigion.sch.uk

Yn Ysgol Syr John Rhys hyn fydd prif@syrjohnrhys.ceredigion.sch.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau gan y cyfryngau at pressoffice@ceredigion.gov.uk ac ni ddylid ymateb iddynt gan yr ysgol

| Senario Posibl | Cyfrifoldeb / Camau | Dogfennau ategol |
|---|---|---|
| Iechyd y Cyhoedd | • Gofynnwch am gyngor arbenigol gan yr Awdurdod Lleol Iechydadiogelwch@ceredigion.gov.uk<br>a galwch gyfarfod ag Iechyd Cyhoeddus Cymru os oes angen<br>• Aseswch yn erbyn rhestr wirio Mesur Rheoli ar gyfer mesurau lliniaru<br>• Dilynwch Asesiad Risg yr Awdurdod Lleol ar gyfer Clefydau Heintus a Chlefydau Trosglwyddadwy<br>• Os nad yw yng Nghytundeb Lefel Gwasanaeth yr Awdurdod Lleol gyda'r Awdurdod Lleol, ystyriwch fesurau glanhau ychwanegol fel y cynghorir (shaun.bethell@ceredigion.gov.uk)<br>• Dilynwch y Canllawiau Parhad Dysgu | https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/rhestr-wirio-mesurau-rheoli-iechyd-cyhoeddus.docx |
| Tywydd Garw | • Pennaeth i asesu a allai fod angen cau dros dro oherwydd anhawster mynd at yr ysgol neu risg o anaf a gwneud penderfyniad priodol<br>• Os gwneir penderfyniad i gau'r ysgol rhowch wybod i addysg@ceredigion.gov.uk / nia.james@ceredigion.gov.uk<br>• Rhowch wybod i'r Uned Cludiant Teithwyr Gorfforaethol cptu@ceredigion.gov.uk<br>• Mae biniau graean/halen wedi'u lleoli ar faes parcio neu thu allan adeilad yr ysgol<br>• Dilynwch y Canllawiau Parhad Dysgu | Agor Ysgolion mewn Tywydd Eithafol o Arw - Canllawiau i Ysgolion \| LLYW.CYMRU)<br><br>https://icc.gig.cymru/TywyddPoeth. |
| Digwyddiadau sy'n ymwneud â Diogelwch, gan gynnwys seiberddiogelwch | • Ceir manylion cyswllt yr holl staff a disgyblion ar 'Team' disgyblion yr ysgol<br>• Os bydd digwyddiadau neu bryderon ynghylch seiberddiogelwch, dylid hysbysu Jason Taylor (Jason.Taylor@ceredigion.llyw.cymru) a Desg Gymorth TGCh (desgwasanaeth@ceredigion.gov.uk) neu 01970 633 205 ar unwaith<br>• Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddigwyddiadau seiberddiogelwch sy'n ymwneud â HWB<br>• Os bydd digwyddiad yn ymwneud â diogelwch, dylai'r ysgol weithredu ei pholisi cloi mewn argyfwng (mewnosodwch eich polisi ysgol benodol) | Plan to Prepare: Prepare to Protect |
| Digwyddiadau ar gludiant i'r ysgol neu dripiau ysgol | • Os bydd digwyddiad neu ddamwain sydd wedi achosi niwed neu anaf i ddisgybl neu aelod o staff ac sydd wedi golygu bod angen y gwasanaethau brys / mynd i'r ysbyty, yna dylid hysbysu'r Prif Swyddog Addysg cyn gynted â phosib. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Bydd unrhyw wybodaeth am drip ysgol ar y system Evolve, gan gynnwys manylion cyswllt allweddol a phwynt cyswllt yr ysgol. Aelodau staff yr ysgol sy'n gallu defnyddio Evolve yw Joyce George a Helen Davies.<br>• Dylid hysbysu'r Unedau Cludiant Corfforaethol neu'r cyswllt brys y tu allan i oriau ar unwaith os bydd digwyddiad cludiant rhwng y cartref a'r ysgol (cptu@ceredigion.gov.uk) | |
| Absenoldebau staff heb eu cynllunio | • Aseswch a all yr ysgol ddarparu dysgu wyneb yn wyneb i bob disgybl, neu a yw grwpiau penodol wedi'u blaenoriaethu:<br>• Bydd disgyblion mewn grwpiau arholiad yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb.<br>• Disgyblion sy'n agored i niwed (rhestr ar gyfer pob grŵp blwyddyn ar gael gyda'r Pennaeth)<br>• Plant gweithwyr hanfodol (ddim yn berthnasol i ddisgyblion o flwyddyn 8 ac uwch). Bydd yr ysgol yn asesu angen fesul achos, gan roi sylw dyledus i restr Llywodraeth Cymru (Atodiad B)<br>• Dilynwch y Canllawiau Parhad Dysgu | Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol |
| Achosion o'r pŵer yn diffodd | • Os yw achos bwriadol o'r pŵer yn diffodd wedi'i drefnu, dylid ystyried hyd y diffodd, amser o'r dydd a'r flwyddyn – e.e. effaith ar wresogi.<br>• Os nad yw achos o'r pŵer yn diffodd wedi'i gynllunio, dylid cysylltu â darparwr yr ynni i ganfod hyd posibl y diffodd. Dylid wedyn ystyried cau'r ysgol yn dibynnu ar hyd ac effaith y diffodd.<br>• Os bydd achos o'r pŵer yn diffodd heb ei gynllunio, cedwir copïau papur o gofrestr bresenoldeb yr ysgol yn ddiogel yn swyddfa'r ysgol. Adnewyddir y gofrestr hon bob hanner tymor.<br>• Cedwir copïau papur o fanylion cyswllt staff a disgyblion yn ddiogel yn swyddfa'r ysgol. Adnewyddir hyn bob hanner tymor. | https://www.nationalgrideso.com/research-publications/winter-outlook |

# CYNLLUN PARHAD DYSGU

(Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar Ganllawiau Parhad Dysgu Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2022)

Os oes rhaid tarfu ar ddysgu am reswm mae'n hanfodol bod Ysgol Pontrhydfendigaid yn barod ac yn gallu parhau i gefnogi dysgu ein disgyblion.

Os na all ein disgyblion gael gafael ar ddysgu wyneb yn wyneb, bydd ein cynnig dysgu o bell yn bwriadu darparu cyfuniad eang a chytbwys o ddysgu anghydamserol a chydamserol. Bydd y cynnig yn briodol i lefel a natur y tarfu.

Bydd y Cynllun Parhad Dysgu hwn yn berthnasol i unigolion (heb gynnwys y rheini sydd ar wyliau), grwpiau o ddysgwyr ac o fewn cyd-destun ysgol gyfan.

Bydd dysgu o bell, cyn belled ag y bo modd, yn canolbwyntio ar y rhaglen astudio arferol y byddai ein disgyblion yn ei dilyn pe byddent yn mynychu'r ysgol, mae hyn yn arbennig o allweddol i'r dysgwyr hynny mewn grwpiau blwyddyn arholiadau.

Ochr yn ochr â dysgu o bell, bydd Ysgol Pontrhydfendigaid hefyd yn cynnal cyswllt rheolaidd â dysgwyr i 'alw heibio' a sicrhau eu lles. Fel y nodwyd yn ein Cynllun Argyfwng a Chydnerthedd, mae canllawiau diogelu statudol arferol yn parhau i fod yn berthnasol yn ystod unrhyw gyfnod cau ysgol dros dro. Os na all staff gysylltu â disgyblion yna dylid dilyn y broses a amlinellir yn y ddogfen ganlynol (dolen i'r ddogfen diogelu.)

Yn Ysgolion Mynach, Pontrhydfendigaid a Syr John Rhys mae ein rhestr o ddisgyblion sy'n agored i niwed yn cael ei diweddaru'n gyson ac mae'r Pennaeth yn gyfrifol am ddosbarthu staff priodol i gysylltu â'r grŵp hwn o ddysgwyr. Bydd ein disgyblion sy'n agored i niwed yn cael galwad ffôn lles bob dydd.

Bydd y Pennaeth yn cysylltu â disgyblion sy'n absennol o weithgareddau dysgu cydamserol. Bydd angen i staff roi rhestr o ddisgyblion absennol i'r Pennaeth.

| | Camau Gweithredu gan yr Ysgol | Dogfennau / dolenni ategol |
|---|---|---|
| Paratoi ar gyfer dysgu o bell: disgyblion | Sicrhau bod disgyblion wedi cwblhau a dychwelyd polisi Defnydd Derbyniol TGCh | Casgliad o fideos ac adnoddau i helpu datblygu sgiliau digidol disgyblion.<br>Uwchradd<br>Cynradd |
| Paratoi ar gyfer dysgu o bell: staff | Sicrhau bod gan aelodau o staff fynediad i gliniadur. | Canllaw cyflawn i staff os oes angen iddynt symud i ddysgu o bell ar fyr rybudd.<br>Dysgu o Bell<br><br>Ystod eang o ddogfennau a fideos ategol i helpu i ddatblygu sgiliau digidol staff.<br>Ystorfa Ceredigion<br><br>Gwersi 'Learn Live' mwyaf diweddar<br>Learn Live |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gwefan Rhannu Arferion Gorau<br><br>Gwefan adnoddau thematig |
| Mynediad dysgwyr at offer ac adnoddau | Coladu pa ddisgyblion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a gweithio gyda thîm cymorth Systemau TGCh Ceredigion i sicrhau tegwch o ran mynediad. | |
| Amser dysgu (cyfuniad o gydamserol ac anghydamserol) | Oedran 3-5 oed : 1 awr<br>Oedran 5-8 oed : 3 awr<br>Oedran 8-11 oed : 4 awr<br>Oedran 11-16 oed : 5 awr | |
| Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | Oedran 3-5 oed : 1 awr<br>Oedran 5-8 oed : 3 awr<br>Oedran 8-11 oed : 4 awr<br>Oedran 11-16 oed : 5 awr<br>(Newidiadau I'r amserlen yn ol yr angen ) | |
| Trefniadau ar gyfer dosbarthu deunyddiau dysgu a'u casglu os oes angen i ddysgwyr fod all-lein | Bydd y Pennaeth yn gwneud y trefniadau angenrheidiol | |
| Cyfathrebu gyda rhieni | Bydd y Pennaeth yn cyfathrebu gyda'r rhieni | |

**ATODIAD A**

Manylion cyswllt brys ar gyfer staff yr Awdurdod Lleol:

| | |
|---|---|
| Elen James | Cartref:<br>Swyddfa:<br>Ffôn symudol: |
| Gwion Dafydd | Cartref: 01545 590797<br>Swyddfa: 01970 633630<br>Ffôn symudol: 07872 631464 |
| NIcola Willis | Ffôn symudol: 07815 993638 |
| Ann Lloyd | Ffôn symudol: 07813 197881 |

**ATODIAD B**

Canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch plant gweithwyr hanfodol. Efallai y bydd angen cyfyngu ar leoedd yn dibynnu ar y gallu staffio sydd ar gael. Dylai ysgolion roi sylw dyledus i:

**Iechyd a gofal cymdeithasol**

Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, feddygon, nyrsys, bydwragedd, parafeddygon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, a staff iechyd a gofal cymdeithasol eraill y rheng flaen gan gynnwys gwirfoddolwyr; y staff cymorth a'r staff arbenigol sydd eu hangen i gynnal sector iechyd a gofal cymdeithasol y DU; y rheini sy'n gweithio fel rhan o'r gadwyn gyflenwi iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cynhyrchwyr a dosbarthwyr meddyginiaethau, cyfarpar meddygol a chyfarpar diogelu personol.

**Addysg a gofal plant**

Mae hyn yn cynnwys:

- gofal plant
- staff cymorth ac addysgu
- gweithwyr cymdeithasol
- gweithwyr addysg proffesiynol arbenigol y mae'n rhaid iddynt aros yn weithgar yn ystod ymateb i argyfwng i gyflawni'r dull hwn o weithredu

**Gwasanaethau cyhoeddus allweddol**

Mae hyn yn cynnwys:

- y rheini sy'n hanfodol i redeg y system gyfiawnder
- staff crefyddol
- elusennau a gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen allweddol
- y rheini sy'n gyfrifol am reoli'r ymadawedig
- newyddiadurwyr a darlledwyr sy'n darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus

**Llywodraeth leol a chenedlaethol**

Mae hyn ond yn cynnwys y galwedigaethau gweinyddol hynny sy'n hanfodol i ddarparu'r canlynol yn effeithiol:

- ymateb i argyfwng
- gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, megis talu budd-daliadau gan gynnwys yn asiantaethau'r llywodraeth a chyrff hyd braich

**Bwyd a nwyddau angenrheidiol eraill**

Mae hyn yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud â:

- cynhyrchu bwyd

- prosesu bwyd
- dosbarthu bwyd
- gwerthu a danfon bwyd
- yn ogystal â'r rheini sy'n hanfodol i ddarparu nwyddau allweddol eraill (er enghraifft meddyginiaethau hylan a meddyginiaethau milfeddygol)

**Diogelwch y cyhoedd a diogelwch gwladol**

Mae hyn yn cynnwys:

- yr heddlu a staff cymorth
- sifiliaid y Weinyddiaeth Amddiffyn
- personél contractwyr a'r lluoedd arfog (y rheini sy'n hanfodol i gyflawni allbynnau allweddol o ran amddiffyn a diogelwch gwladol ac sy'n hanfodol i ymateb i argyfwng)
- gweithwyr y gwasanaeth tân ac achub (gan gynnwys staff cymorth)
- Staff yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- y rheini sy'n cynnal diogelwch y ffin, staff carchardai a staff prawf a rolau diogelwch gwladol eraill, gan gynnwys y rheini dramor

**Trafnidiaeth**

Mae hyn yn cynnwys y rheini a fydd yn cadw'r dulliau cludo teithwyr a llwythi trwy'r awyr, dros y dŵr, ac ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd i weithredu yn ystod ymateb i argyfwng, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio ar systemau trafnidiaeth y mae cadwyni cyflenwi'n mynd drwyddynt.

**Cyfleustodau, cyfathrebu a gwasanaethau ariannol**

Mae hyn yn cynnwys:

- staff sydd eu hangen ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol hanfodol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithwyr mewn banciau, cymdeithasau adeiladu a seilwaith y farchnad ariannol)
- y sectorau olew, nwy, trydan a dŵr (gan gynnwys carthffosiaeth)
- sector technoleg gwybodaeth a seilwaith data a chyflenwadau'r diwydiant cynradd i barhau yn ystod ymateb i argyfwng
- staff allweddol sy'n gweithio ym maes niwclear sifil, cemegion, telathrebu (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithrediadau rhwydwaith, peirianneg maes, staff canolfan alwadau, seilwaith TG a data, gwasanaethau hanfodol 999 a 111)
- gwasanaethau post a dosbarthu post
- darparwyr taliadau
- sectorau gwaredu gwastraff

**ATODIAD C**

Cofrestr Sylweddau Fflamadwy a Pheryglus:

| Sylwedd | Lleoliad |
|---|---|

| Deunydd glanhau | Storfa Glanhau |
| --- | --- |
| | |
| | |